

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Chepstow Road
(Deintyddfa Brunswick), Bwrdd
Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 13 Mehefin 2023

Dyddiad cyhoeddi: 13 Medi 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.Yr hyn a wnaethom	5
2.Crynodeb o'r arolygiad	6
3.Yr hyn a nodwyd gennym	8
• Ansawdd Profiad y Claf	8
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
4.Y camau nesaf.....	19
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	20
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	22
Atodiad C - Cynllun gwella.....	25

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Chepstow Road, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneirin Bevan ar 13 Mehefin 2023. Gelwir y practis yn Deintyddfa Brunswick hefyd.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 43 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Practis Deintyddol Chepstow Road yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a charedigrwydd gan dîm y practis.

Gwnaethom wahodd y cleifion i gwblhau holiadur AGIC a chawsom 43 o ymatebion (ni atebodd rhai o'r ymatebwyr bob cwestiwn, a oedd yn golygu nad oedd 43 o ymatebion ar gyfer pob cwestiwn). Dywedodd pob claf fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn "dda iawn" (39/42 o ymatebwyr) neu'n "dda" (3/42). Roedd sylwadau'r ymatebwyr yn cynnwys:

"Gofal a thriniaeth rhagorol gan bob aelod o'r tîm."

"Proffesiynol iawn. Maent yn gydymdeimladol iawn. Amyneddgar iawn."

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwneud addasiadau rhesymol i gleifion â phroblemau symudedd
- Sefydlu cofnodlyfr canolog ar gyfer adborth a chwynion, a'r camau gweithredu canlyniadol
- Sicrhau y gall y cleifion gael gafael ar wybodaeth berthnasol a gadael negeseuon llais ar y system ffôn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn ffordd ofalgar a chyfeillgar
- Mae'r practis yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion ac yn eu hannog i roi adborth.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Practis Deintyddol Chepstow Road yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu'r gwasanaethau a'r triniaethau i'r cleifion. Nodwyd gennym fod yr ardaloedd clinigol wedi'u hadnewyddu a'u gwella ers arolygiad diwethaf y practis. Gellid gwneud gwelliannau pellach, gan gynnwys sefydlu ardal ddihalogi ddynodedig.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Nid oedd gwiriadau gofynnol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu cynnal ar un aelod o staff.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ystyried sefydlu ardal ddihalogi ddynodedig
- Sicrhau y gellir storio pob un o'r cofnodion cleifion yn ddiogel
- Adolygu a gwella asesiad risg tân y practis a gweithredu ar unrhyw ganfyddiadau
- Sicrhau y caiff effeithiau unrhyw waith atgyweirio neu wella ar yr ardaloedd clinigol eu lliniaru.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y deintyddfeydd wedi'u hadnewyddu a'u gwella'n sylweddol ers arolygiad diwethaf y practis
- Ystyriwyd fod y cyfarpar clinigol yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas at ei ddiben.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod gan Bractis Deintyddol Chepstow Road arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyffredol ar waith. Roedd y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Monitro cofnodion y staff a sicrhau cydymffurfiaeth â hyfforddiant
- Cyflwyno systemau i ddangos bod y staff wedi darllen a deall y polisiau a'r gweithdrefnau allweddol
- Cynnal sesiynau arfarnu ar gyfer y staff yn rheolaidd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd nifer cynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau ar waith
- Roedd system electronig yn cael ei chyflwyno i reoli cydymffurfiaeth â hyfforddiant.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

“Ni all fy neintydd a phob aelod arall o'r staff wneud digon i helpu ac ateb cwestiynau. Rwyf wedi cael gwasanaeth mewn sawl deintyddfa dros amser (wrth symud yn sgil newid ardal neu ddeintydd yn ymddeol) ac rwy'n hollol fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir yma. Dyma'r gwasanaeth deintyddol gorau i mi ei gael erioed.”

“Rydym wedi cael gwasanaeth yn yr un practis ers dros 49 o flynyddoedd ac wedi cael triniaeth ragorol bob amser. Mae pob aelod o'r staff yn ofalgar ac yn wybodus iawn, ac maent wedi ein trin â pharch bob amser.”

“Mae pob aelod o'r staff bob amser yn gyfeillgar, cwrtais ac yn barod i helpu gydag ymholiadau wyneb yn wyneb a thros y ffôn...”

Hybu Iechyd

Dyweddodd y staff wrthym eu bod yn parhau i holi a oes gan y cleifion symptomau COVID-19 a gwelsom fesurau ataliol sydd ar waith o hyd, megis hylif diheintio dwylo ger y drws ffrynt a sgrin amddiffynnol wrth ddesg y dderbynfa.

Roedd gan y practis ffolder benodol yn yr ardal aros yn darparu ystod o wybodaeth i'r cleifion am y practis deintyddol, gan gynnwys costau triniaethau a sut i wneud cwynion neu roi adborth. At hynny, gwelsom fod posteri a thafleuni gwybodaeth i'w gweld yn yr ardaloedd cyhoeddus a oedd yn hyrwyddo iechyd y geg ac yn darparu gwybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir.

Gwelsom arwyddion a oedd yn cadarnhau bod y practis yn fangre di-fwg yn unol â deddfwriaeth.

Gofal Urddasol a Pharchus

Gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol.

Roedd drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau, gan gynnwys preifatrwydd y cleifion. Dywedodd y staff wrthym fod y deintyddfeydd yn

cael eu defnyddio gan y staff ar gyfer cynnal sgysiau preifat â'r cleifion pe dymunant hefyd. Gwelsom fod sgrin breifatrwydd yn cael ei defnyddio ar y monitor cyfrifiadur yn y dderbynfa. Cawsom wybod gan y staff fod negeseuon llais yn cael eu sgrinio gan ddefnyddio set law y ffôn yn hytrach na seinydd ffôn, ac y gellid trosglwyddo galwadau ffôn i'r deintyddfeydd fel y bo angen.

Gwelwyd bod copïau Cymraeg a Saesneg o'r 9 Egwyddor, fel y'u nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yn cael eu harddangos yn yr ardal aros ac wedi'u cynnwys yn y ffolder gwybodaeth i gleifion. Mae'r 9 Egwyddor yn gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac maent yn nodi'r hyn y dylai cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

Dim ond rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol y ddau ddeintydd a'r hylenydd oedd i'w gweld.

Gwnaethom argymhell y dylai enwau, rolau a rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol pob aelod o'r staff fod ar gael. Datryswyd hyn yn ystod yr arolygiad drwy roi'r wybodaeth yn y ffolder gwybodaeth i gleifion yn yr ardal aros.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Mae'r practis wedi'i leoli ar un lefel, ar y llawr gwaelod. Mae gris ger y drws ffrynt a dywedodd y staff wrthym fod pobl sy'n defnyddio cadair olwyn yn cael eu cyfeirio at y fynedfa ochr lle y mae'r drws yn gulach, ond mae'r gris yn is.

Rydym yn argymhell y dylai'r practis ystyried sut y gall ddiwallu anghenion y bobl â phroblemau symudedd sydd angen mynd i mewn i'r practis orau ac a fyddai unrhyw addasiadau rhesymol yn briodol.

Roedd arwyddion clir ar doiled y cleifion. Roedd i'w weld yn lân ac roedd bar cydio a chanllaw ar gyfer defnyddwyr anabl. Nodwyd gennym y byddai'r daliwr papur toilet yn anodd ei gyrraedd i ddefnyddwyr â phroblemau symudedd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff addasiadau rhesymol eu gwneud i sicrhau hygrychedd llawn.

Gofynnwyd i'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC a oedd yr adeilad yn hygrych, ac er bod y mwyafrif wedi dweud "ydy" neu "ddim yn siŵr", dywedodd 10% o'r ymatebwyr (4/40) ei fod "yn rhannol" hygrych.

Amserol

Gofal Amserol

Roedd rhifau ffôn i'w gweld yn y brif fynedfa ac yn yr ardal aros pe byddai angen i'r cleifion gael triniaeth ddeintyddol y tu allan i oriau.

Gwelsom fod y staff yn rhoi gwybod i'r cleifion am oedi byr ar lafar mewn ffordd broffesiynol ac yn gwirio a fyddai hyn yn achosi unrhyw broblemau.

Dywedodd y staff wrthym fod slotiau triniaethau brys ar gael yn ddyddiol a'u bod yn ymdrechu i ddarparu ar gyfer cleifion nad oeddent yn gallu mynychu yn ystod oriau gwaith arferol ar sail ad-hoc.

Dywedodd pob un o'r 43 o ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC ei bod yn 'hawdd iawn' (31/43) neu'n 'eithaf hawdd' (12/43) cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt. Fodd bynnag, nid oedd chwarter yr ymatebwyr (11/43) yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Teg

Cyfathrebu ac Iaith

Cawsom wybod gan y staff fod y system ffôn yn cynnwys opsiynau negeseuon wedi'u recordio a negeseuon peiriant ateb i'r cleifion pan oedd y llinell yn brysur neu pan nad oedd yn cael ei ateb. Gwelwyd nad oedd y system hon yn gweithio yn ystod yr arolygiad, a oedd yn golygu y gallai cleifion gael anawsterau wrth gysylltu â'r practis.

Nid yw'r practis yn cyflogi unrhyw aelodau o'r staff sy'n siarad Cymraeg ar hyn o bryd ac ni welsom unrhyw dystiolaeth o'r 'cynnig rhagweithiol' mewn perthynas â'r Gymraeg. Dywedodd y staff wrthym fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cais am ddeunyddiau Cymraeg yn ddiweddar.

Rydym yn argymhell y dylai'r practis ystyried darparu hyfforddiant Cymraeg i bob aelod presennol o'r staff ac ystyried sgiliau Cymraeg yn ystod prosesau recriwtio yn y dyfodol.

Dywedodd y staff wrthym fod gwasanaeth cyfieithu ar gael, ond bod cleifion nad ydynt yn siarad Saesneg yn defnyddio adnoddau cyfieithu ar eu ffonau neu'n gofyn i unigolyn arall fod yn bresennol fel arfer.

Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC mai Saesneg oedd eu dewis iaith.

Hawliau a Chydraddoldeb

Roedd gan y practis bolisi Cydraddoldeb, Urddas a Hawliau Dynol ar waith ac roedd yn rhaid i'r staff gwblhau hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth fel rhan o'u Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

Dyweddodd y staff wrthym eu bod yn trin y cleifion yn gyfartal ac y byddai gwybodaeth berthnasol, megis statws trawsryweddol, fel rheol yn cael ei chofnodi yn nodiadau'r cleifion er mwyn gallu cyfeirio ati.

Roedd pob un o'r 41 o ymatebwyr holiadur AGIC a atebodd y cwestiwn yn teimlo eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch (41/41).

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli Risg

Roedd y practis yn lân ac yn daclus ar y cyfan, gyda digon o olau a system awyru dda. Roedd pob un o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiynau perthnasol yn holiadur AGIC o'r farn bod y lleoliad yn 'lân iawn' (36/40) neu'n 'eithaf glân' (4/40), ac roedd y mwyafrif yn teimlo bod y mesurau atal a rheoli heintiau yn amlwg (39/40).

Roedd gwaith adnewyddu ac atgyweirio yn mynd rhagddo mewn rhai ardaloedd, ac roedd tystiolaeth bod lleithder amlwg yn Neintyddfa tri. Gwelsom geblau trydanol yn dod allan o'r wal yn Neintyddfa dau, a oedd wedi'u gosod mewn bag plastig. Ni allem bennu'n ddiogel p'un a oedd y ceblau yn fyw yn drydanol ai peidio.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y gwifrau hyn eu gosod yn ddiogel gan weithiwr proffesiynol, er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'i gwneud yn haws i gadw'r ardal glinigol yn lân.

Roedd diffoddwyr tân ar gael mewn dau leoliad, a gwelsom eu bod wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd un diffoddwr tân wedi'i osod ar y llawr yn hytrach na'i osod ar y bachyn dynodedig. Tynnwyd sylw'r staff at hyn a chafodd ei ddatrys yn ystod yr arolygiad.

Roedd asesiad risg tân wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, nid oedd yr asesiad risg hwn yn dangos cyfraddau risg nac yn nodi a oedd angen cynnal rhagofalon pellach yn ddigonol. Gwelsom fod deunyddiau llosgadwy yn cael eu storio ger y boeler, yr uned gywasgu a'r uned sugno, a allai gynyddu'r risg o dân a dylid symud y deunyddiau hyn.

Rydym yn argymhell y dylid symud y deunyddiau llosgadwy i leoliad mwy addas ac adolygu a diweddarau'r asesiad risg tân.

Roedd arwyddbyst clir ar gyfer yr allanfeydd brys, ac roedd poster lechyd a Diogelwch i'w weld yn ardal y staff. Roedd Tystysgrif Atebolrwydd Cyflogwyr i'w gweld yn Neintyddfa un.

Roedd dogfen 'Polisi a Gweithdrefnau lechyd a Diogelwch' ar waith yn y practis yn ogystal â pholisi Rheoli Parhad Busnes a Chynllunio ar gyfer Trychinebau.

Dim ond un aelod o'r staff (Rheolwr y Practis) oedd wedi'i gymhwyso fel Swyddog Cymorth Cyntaf ac a oedd yn meddu ar gofnodion hyfforddiant cyfredol. Roedd ei dystysgrif i'w gweld yn ardal aros y cleifion.

Rydym yn argymhell y dylai o leiaf un aelod arall o'r staff gael hyfforddiant i fod yn Swyddog Cymorth Cyntaf i leihau'r risg i'r cleifion pe na bai Rheolwr y Practis yn bresennol.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Gwelsom fod dyfeisiau meddygol aml dro yn cael eu storio a'u diheintio'n briodol. Gwelsom dystiolaeth fod y staff wedi cael hyfforddiant a'u bod yn gymwys yn y protocolau dihalogi.

Nid oedd gan y practis ardal ddihalogi ar wahân yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.

Rydym yn argymhell y dylai'r practis ystyried cael ardal ddihalogi ddynodedig.

Gwelsom fod polisi a gweithdrefnau rheoli heintiau priodol ar waith a bod amserlen lanhau effeithiol ar gael. Roedd rhestrau gwirio glanhau dyddiol ar waith ar gyfer pob deintyddfa. Gellid sicrhau bod y rhestrau gwirio hyn yn fwy hygyrch a'u bod yn cael eu blaenlythrennu neu eu cydlofnodi er mwyn darparu tystiolaeth well eu bod wedi'u cwblhau'r gywir.

Rheoli Meddyginiaethau

Nodwyd gennym fod trefniadau a systemau priodol a diogel ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Gwnaethom argymhell y dylai manylion ar sut i gysylltu â'r gwasanaethau brys fod ar gael i'r staff yn rhwydd a datrys y mater yn ystod yr arolygiad. Nid oedd y contract gwaredu gwastraff yn cynnwys caniatâd i waredu meddyginiaethau a chyffuriau brys nad oeddent yn cael eu defnyddio neu yr oedd y dyddiad arnynt wedi mynd heibio. Roedd y rhain yn cael eu cludo i fferyllfa leol i'w gwaredu.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y contract gwaredu gwastraff yn cynnwys caniatâd i waredu meddyginiaethau a chyffuriau brys nad ydynt yn cael eu defnyddio neu yr oedd y dyddiad arnynt wedi mynd heibio.

Diogelu Plant ac Oedolion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y staff a gwelsom nad oedd gwiriadau gofynnol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu cynnal ar un aelod o staff. Felly, ni allai'r practis ddangos bod plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed yn cael eu hamddiffyn rhag y risg o niwed yn ddigonol. Ymdriniwyd â'r mater

hwn o dan broses AGIC ar gyfer ymdrin ag achosion o ddiffyg cydymffurfio ar unwaith a chyfeirir ato yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

Roedd polisïau a gweithdrefnau clir ar waith. Roedd y staff wedi cael hyfforddiant hyd at lefel priodol ac roedd yr arweinydd diogelu wedi ymgymryd â hyfforddiant Lefel 3. Fodd bynnag, nid oedd siart llif i'w weld gyda'r manylion cyswllt na'r camau gweithredu i'w cymryd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod llwybr diogelu (siart llif) gyda manylion cyswllt a'r camau gweithredu i'w cymryd ar gael i bob aelod o'r staff.

Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol

Nodwyd gennym fod y cyfarpar clinigol yn ddiogel, mewn cyflwr da a bod y staff wedi cael hyfforddiant ar sut i'w ddefnyddio. Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith er mwyn defnyddio'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel.

Nid oedd y contract ar gyfer ymgysylltu â Chynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd yn gyfredol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gael copi cyfredol o'r contract er mwyn dangos ei fod yn ymgysylltu â Chynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd addas i gael cyngor ar waith sy'n ymwneud ag ymbelydredd ìoneiddio.

Gwelsom nad oedd y cofnodlyfr ar gyfer profion awtoclaf yn cynnwys sawl munud y bu i wasgedd gael ei ddal gan yr awtoclaf math-n a chafodd y staff eu cynghori i newid y cofnodlyfr. Gwelsom hefyd fod tystysgrif arolygu'r awtoclaf wedi dyddio.

Rydym yn argymhell y dylai'r practis gael copi o'r dystysgrif bresennol ar gyfer arolygiad o'r awtoclaf ynghyd â manylion o'r camau a gymerwyd i sicrhau y caiff pob canlyniad prawf yr awtoclaf ei gofnodi a'u rhoi i AGIC.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Nodwyd gennym fod trefniadau diogel ar waith yn y practis i dderbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin.

Mewn ymateb i holiadur AGIC, dywedodd pob un o'r ymatebwyr a atebodd eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael a'u bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall y risgiau/buddiannau a oedd yn gysylltiedig â'r opsiynau triniaeth hynny.

Cofnodion y Cleifion

Gwnaethom edrych ar sampl o 10 o gofnodion cleifion a gwelsom eu bod yn foddhaol ar y cyfan, ond gwnaethom argymhell y gellid gwneud gwelliannau.

Rydym yn argymhell y dylai'r cofnodion gynnwys tystiolaeth o'r broses cynllunio triniaeth, asesiadau risg, dewisiadau iaith a darpariaeth o iechyd y geg. At hynny, dylid dileu unrhyw adrannau amherthnasol a lle y defnyddir templedau mewn nodiadau clinigol.

Nodwyd gennym nad oedd modd cloi rhai o'r cypyrddau a oedd yn cael eu defnyddio i storio nodiadau clinigol a chofnodion cleifion.

Rydym yn argymhell y dylid cadw'r rhain yn ddiogel er mwyn sicrhau preifatrwydd cleifion.

Effeithlon

Effeithlon

Roedd y cyfleusterau a'r safle yn briodol ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir, gyda nifer priodol o staff clinigol a oedd yn meddu ar sgiliau amrywiol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Rheolwr y practis sy'n gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Gwelsom fod y staff yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau a bod strwythurau rheoli clir ar waith.

Roedd y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion ac roedd amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ar waith i'w cefnogi yn hyn o beth. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd polisi ar gyfer sicrhau bod y safle yn addas at y diben nac asesiad risg amgylcheddol a dylid eu rhoi ar waith.

Rhaid i reolwr y practis sicrhau bod pob polisi, gweithdrefn ac asesiad risg sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 yn cael eu rhoi ar waith a'u hadolygu bob tair blynedd. At hynny, dylid gwneud trefniadau fod y rhain yn cael eu llofnodi gan y staff er mwyn dangos eu bod wedi cael eu darllen a'u deall.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd gan bob un ohonynt gontract cyflogaeth. Gwelsom fod rhestr wirio sefydlu staff yn cael ei defnyddio ar gyfer cyflogeion newydd.

Gwelsom fod system electronig yn cael ei defnyddio i olrhain a chyflwyno hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau. Fodd bynnag, gwelsom fod polisiau, gweithdrefnau a dogfennau mewn perthynas â hyfforddiant y staff yn cael eu cadw mewn sawl lleoliad (yn electronig ac ar bapur), a oedd yn gwneud y gwaith monitro cydymffurfiaeth yn anos.

Rydym yn argymhell y dylid cynnal y cofnodion hyfforddiant mewn matrices hyfforddiant neu ddogfen debyg er mwyn gallu nodi hyfforddiant sydd angen ei adnewyddu yn rhwydd.

Cadarnhaodd Rheolwr y Practis nad oedd y staff yn cael arfarniadau ffurfiol ar hyn o bryd ond eu bod yn gallu trafod unrhyw faterion ar sail ad-hoc.

Rydym yn argymhell y dylai pob aelod o'r staff gael arfarniad blynyddol.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal a bod gwybodaeth yn cael ei rhannu ag unrhyw aelod o'r staff nad oedd yn gallu eu mynychu.

Diwylliant

Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Nodwyd gennym fod y practis yn annog y cleifion i roi adborth a bod mecanweithiau da ar waith i gasglu'r adborth hwn, gydag opsiynau electronig a phapur ar gael. Fodd bynnag, nid oedd system ar waith er mwyn sicrhau bod yr adborth yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

Rydym yn argymhell y dylid rhoi systemau ar waith i adolygu'r adborth a geir a'r camau gweithredu, os o gwbl, a gymerwyd o ganlyniad i'r adborth yn rheolaidd, a rhannu hyn â'r cleifion.

Nodwyd gennym fod gweithdrefn gwyno gynhwysfawr ar waith ac ar gael yn hawdd i'r cleifion. Fodd bynnag, nid oedd cofnodlyfr canolog o'r holl gwynion ar gael a fyddai'n ei gwneud yn haws nodi unrhyw dueddiadau neu themâu ac i gofnodi unrhyw gamau a gymerwyd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodlyfr canolog ei gyflwyno er mwyn casglu a chofnodi pob cwyn (ar lafar ac yn ysgrifenedig).

Gwybodaeth

Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Ddigidol

Disgrifiodd y staff system addas ar gyfer cofnodi digwyddiadau diogelwch cleifion, gan ddenfyddio ffurflen cofnodi digwyddiad. Roedd polisi Dyletswydd Gonestrwydd ar waith a oedd yn nodi'n glir y dylai'r staff roi gwybod am unrhyw ddigwyddiad i Reolwr y Practis ac a oedd yn cynnwys meini prawf ar gyfer gwybod pryd i hysbysu AGIC am ddigwyddiad.

Dysgu, Gwella ac Ymchwil

Gweithgareddau Gwella Ansawdd

Gwelsom fod y staff wedi ymgymryd â hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus a bod cyngor proffesiynol ar gael iddynt. Gwnaethom nodi bod y practis wedi rhoi gwelliannau clinigol ar waith yn ddiweddar, megis y defnydd o uned crafiadau aer a sganiwr archwiliadau yn y geg.

Gwelsom dystiolaeth bod rhai archwiliadau clinigol wedi'u cynnal, megis archwiliad ar y nodiadau clinigol. Fodd bynnag, nid oedd nifer yr archwiliadau yn ddigonol ac ni welsom unrhyw dystiolaeth bod y practis wedi adrodd ar y canfyddiadau. Dywedwyd wrthym nad oedd y practis yn defnyddio'r Adnodd Hyfforddi Gwella Ansawdd a ddarparwyd gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

Rydym yn argymhell y dylai'r practis roi rhaglen o archwiliadau clinigol ar waith a rhoi manylion y camau a gymerwyd i gynyddu niferoedd yr archwiliadau clinigol, eu cofnodi a gweithredu ar unrhyw ganfyddiadau i AGIC.

Dull Systemau Cyfan

Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu

Cawsom wybod bod y practis yn defnyddio systemau rheoli ansawdd allanol, sef eDEN a Compass y GIG. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ymgysylltu â gwasanaethau gofal iechyd eraill er mwyn atgyfeirio achosion neu gynnal gwaith labordy, a chaiff hyn ei wneud dros y ffôn.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd rhifau cofrestru rhai aelodau o'r staff â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gael i'r cleifion	Mae'n bosibl nad yw'r cleifion yn cael gwybod am y gweithwyr deintyddol proffesiynol sy'n ymwneud â'u gofal yn llawn	Codwyd hyn gyda Rheolwr y Practis yn ystod yr arolygiad	Rhoddwyd rhestr lawn o enwau'r staff, eu rolau a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn y ffolder gwybodaeth i gleifion yn yr ardal aros
Nid oedd diffoddwr tân wedi'i leoli ar y wal	Dylid cadw diffoddwyr tân mewn lleoliad dynodedig a chyson, lle y gellid dod o hyd iddynt yn hawdd mewn argyfwng	Codwyd hyn gyda Rheolwr y Practis yn ystod yr arolygiad	Cafodd y diffoddwr tân ei osod yn ôl yn ei lleoliad dynodedig ar y wal

Dylid cynnwys manylion am sut i gysylltu â'r gwasanaethau brys yn y pecyn ar gyfer rheoli argyfyngau meddygol	Bydd gwneud yn siŵr bod y manylion hyn ar gael yn hawdd i bob aelod o'r staff yn helpu i sicrhau bod claf sy'n dioddef argyfwng meddygol yn cael ei drin ar unwaith	Codwyd hyn gyda Rheolwr y Practis yn ystod yr arolygiad	Argraffwyd rhestr o fanylion cyswllt a'i chynnwys yn y pecyn ar gyfer rheoli argyfyngau meddygol
---	---	---	--

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Chepstow Road

Dyddiad yr arolygiad: 13 Mehefin 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd gwiriadau gofynnol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu cynnal ar un aelod o'r staff er mwyn sicrhau ei fod yn addas i weithio mewn practis deintyddol.	Rhaid i'r Rheolwr Cofrestredig ddarparu manylion i AGIC o'r camau a gymerwyd i sicrhau bod y gwiriadau Datgelu a Gwahardd priodol wedi'u cynnal ar yr aelod o'r staff dan sylw.	Rheoliad 18(1), (2)(e) - Addasrwydd gweithwyr	Cynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Defnyddiwyd y system ambarél a chwmni Cavity Dental Staff Agency Ltd i'w cynnal.	Louise Wilkins	20 Mehefin 2023
	At hynny, rhaid i'r Rheolwr Cofrestredig roi trefniadau ar waith i sicrhau'r canlynol:	Atodlen 3 - Yr Wybodaeth sy'n Ofynnol mewn Cysylltiad â Phersonau sy'n Ceisio Cynnal, Rheoli neu Weithio mewn Practis Deintyddol Preifat		Mae Aseiad Risg y Gwasanaeth Datgelu a	Rhonda Baker

	<ul style="list-style-type: none"> • Cynhelir gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd fel rhan o'r broses recriwtio • Bod y staff sy'n gweithio i'r Practis Deintyddol yn rhoi gwybod i'r rheolwr cofrestredig am newidiadau perthnasol a allai effeithio ar eu tystysgrifau Datgelu a Gwahardd • Bod y staff yn ardystio'n flynyddol nad oes unrhyw newidiadau wedi mynd rhagddynt a fyddai'n effeithio ar eu tystysgrifau Datgelu a Gwahardd. 		<p>Gwahardd wedi'i gwblhau, ac mae ffurflenni Datgelu a Gwahardd wedi'u llenwi ar y cyd â chwmni Cavity Dental Agency - rydym wedi talu, eu llofnodi a'u dychwelyd drwy'r post (tystiolaeth wedi'i hatodi)</p> <p>Mae gwiriwr Datgelu a Gwahardd ar waith a bydd gwiriadau'n cael eu cynnal cyn i unrhyw aelodau newydd o staff ddechrau eu gwaith (gan ddefnyddio ffurflen iComply)</p> <p>Mae ffurflen newydd ar waith ar iComply</p> <p>Mae angen i bob aelod o'r staff lofnodi ffurflenni sydd bellach wedi'u hychwanegu at y calendr blynyddol ar</p>	<p>Rhonda Baker</p> <p>Rhonda Baker</p> <p>Rhonda Baker</p>	<p>Cwblhawyd / ar waith</p> <p>Cwblhawyd / ar waith</p> <p>Cwblhawyd / ar waith</p>
--	--	--	--	---	---

			iComply a byddent yn cael eu hadolygu yn ystod arfarniadau blynyddol (o fis Medi 2023 ymlaen)		
--	--	--	---	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Rhonda Baker
Teitl swydd: Rheolwr y Practis
Dyddiad: 20 Mehefin 2023

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Chepstow Road

Dyddiad yr arolygiad: 13 Mehefin 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'r gris ger y drws ffrynt yn effeithio ar allu defnyddwyr cadair olwyn a'r rheini â phroblemau symudedd i fynd i mewn i'r practis.	Rhaid i'r Rheolwr Cofrestredig ystyried sut y gall y practis ddiwallu anghenion y bobl â phroblemau symudedd orau ac a fyddai unrhyw addasiadau rhesymol yn briodol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 15(2)	Mae addasiadau rhesymol wedi'u gwneud i wella mynediad i gadeiriau olwyn drwy osod rampiau ger y drws ffrynt.	Rhonda Baker	Ar waith ers 20/06/2023
Roedd lleoliad y daliwr papur toiled yn nhoiled y cleifion yn anodd ei gyrraedd i ddefnyddwyr â phroblemau symudedd.	Rhaid i'r Rheolwr Cofrestredig sicrhau y gall pob defnyddiwr toiled y cleifion gyrraedd y papur toiled yn hawdd.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 15(2)	Mae'r daliwr papur toiled wedi'u dynnu ac mae bellach yn haws i'w gyrraedd.	Rhonda Baker	Ar waith ers 27/06/2023

<p>Nid oedd system negeseuon wedi'u recordio na pheiriant ateb y system ffôn yn gweithio adeg yr arolygiad, a oedd yn ei gwneud yn anos i'r cleifion gael gwybodaeth neu gysylltu â'r practis.</p>	<p>Rhaid i'r Rheolwr Cofrestredig sicrhau bod y system ffôn yn gweithio'n unol â'r bwriad, bod gwybodaeth wedi'i recordio ar gael i'r cleifion a'u bod yn gallu gadael negeseuon llais.</p>	<p>Safon - Amserol</p>	<p>Rydym yn gweithio gyda [darparwr telathrebu] sy'n gweithredu ein gwasanaeth negeseuon i ddarparu fersiynau Cymraeg a Saesneg er mwyn i'r cleifion gael cysylltiad gwell â'r practis. Rydym hefyd yn rhoi ein cyfeiriad e-bost i'r cleifion pe dymunant gysylltu â ni yn y ffordd honno.</p>	<p>Rhonda Baker</p>	<p>30/08/2023, os nad yn gynt</p>
<p>Nid all y cleifion y byddai'n well ganddynt ddefnyddio'r gwasanaeth yn Gymraeg wneud hynny.</p>	<p>Rhaid i'r Rheolwr Cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darparu mwy o wybodaeth ysgrifenedig yn Gymraeg 	<p>Safon - Teg</p>	<p>Mae FP17 (ffurflenni cofnodion cleifion) ar gael yn Gymraeg a Saesneg ac rydym yn gofyn i'r cleifion ddewis iaith y ffurflenni.</p> <p>Mae'r bwrdd iechyd wedi darparu cynllun gweithredu ar gyfer technoleg Cymraeg ac rydym wedi'i roi i bob</p>	<p>Rhonda Baker</p>	<p>Ar waith ac yn cael ei fonitro'n barhaus.</p>

	<ul style="list-style-type: none"> Cynllunio i feithrin sgiliau Cymraeg aelodau presennol o'r staff ac aelodau o staff y dyfodol. 		<p>aelod o'r staff er mwyn iddynt ei ddarllen a'i lofnodi</p> <p>Byddaf yn monitro hyn gyda'r bwriad i'r staff feithrin eu sgiliau.</p> <p>Bydd negeseuon ein peiriant ateb yn cael eu recordio yn y ddwy iaith.</p>		
Nid oedd y ceblau trydanol yn Neintyddfa dau wedi'u gosod yn ddigonol.	Rhaid i'r Rheolwr Cofrestredig ddarparu manylion i AGIC o'r camau a gymerwyd i osod y ceblau dan sylw yn ddiogel ac yn broffesiynol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 22 (2)	Mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau gan y trydanwr	Rhonda Baker	09/08/2023
Nid yw asesiad risg tân y practis yn nodi cyfraddau risg nac a oes angen cynnal rhagofalon pellach yn ddigonol.	Rhaid i'r Rheolwr Cofrestredig roi manylion i AGIC o'r camau a gymerwyd i adolygu a diweddarau'r asesiad risg tân.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 22)	Mae'r asesiad risg misol bellach yn cael ei wirio a'i gofnodi'n gywir. Swyddogion tân i fynychu cyrsiau.	Rhonda Baker	Parhaus ac ar waith

<p>Roedd deunyddiau llosgadwy yn cael eu storio ger y boeler, yr uned gywasgu a'r uned sugno. Gallai hyn gynyddu'r risg o dân.</p>	<p>Rhaid i'r Rheolwr Cofrestredig roi manylion i AGIC o'r camau a gymerwyd i leihau'r risg o dân yn sgil storio deunyddiau ger y boeler, yr uned gywasgu a'r uned sugno.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 22)</p>	<p>Byddwn yn ystyried symud yr holl ddeunyddiau sy'n agos at yr uned gywasgu/sugno - rydym yn aros am fwy o ardaloedd storio.</p> <p>Mae'r deunyddiau wedi'u symud o'r lleoliad ger y boeler.</p>	<p>Rhonda Baker</p>	<p>21/08/2023</p>
<p>Dim ond un aelod o'r staff oedd wedi'i gymhwyso fel swyddog cymorth cyntaf, ac roedd hyn yn golygu bod mwy o risg i'r cleifion os nad oedd yr aelod hwnnw o staff ar gael.</p>	<p>Rhaid i'r Rheolwr Cofrestredig roi manylion i AGIC o'r camau a gymerwyd i sicrhau bod o leiaf un aelod arall o'r staff yn cael hyfforddiant i fod yn Swyddog Cymorth Cyntaf.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 8 (1)(q)</p>	<p>Bydd pob aelod o'r staff yn cwblhau cwrs cymorth cyntaf yn y gweithle ar [system cydymffurfiaeth electronig]</p> <p>Rydym wedi trefnu bod Sandra Hollings yn cynnal cwrs hanfodol ar gymorth cyntaf ar 19 Hydref.</p>	<p>Rhonda Baker Sandra Hollings</p>	<p>1/12/2023</p>
<p>Nid oes gan y practis ardal ddihalogi ar wahân</p>	<p>Rhaid i'r Rheolwr Cofrestredig gadarnhau y</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat</p>	<p>Mae gennym gynlluniau ar waith i gyflawni hyn,</p>	<p>Rhonda Baker</p>	<p>Parhaus</p>

<p>yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.</p>	<p>bydd yn ystyried cael ystafell ddihalogi ar wahân fel rhan o unrhyw gynlluniau adnewyddu yn y dyfodol</p>	<p>(Cymru) 2017, Rheoliad 13)</p>	<p>ond gan fod lle a chyllid yn nodweddion angenrheidiol mae'n bosibl mai dim ond cynlluniau yw'r rhan ar hyn o bryd. Ond byddwn yn ei ystyried ar gyfer y dyfodol yn bendant.</p>		
<p>Defnyddir rhestrau gwirio glanhau yn ddyddiol ond gellir eu gwella drwy sicrhau eu bod ar gael yn hawdd a chofnodi pan fyddant wedi'u cwblhau</p>	<p>Rhaid i'r Rheolwr Cofrestredig roi manylion i AGIC o'r camau a gymerwyd i sicrhau bod y rhestrau gwirio ar gael yn hawdd i bob aelod o'r staff a'u bod yn cynnwys tystiolaeth eu bod wedi'u cwblhau</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 8 (1)(m)</p>	<p>Trafodwyd y rhestrau gwirio hyn yn ystod cyfarfodydd er mwyn gwella'r ffyrdd y cânt eu cwblhau. Maent bellach yn cael eu gwirio'n wythnosol a'u cofnodi yn y cofnodlyfr Archwilio.</p>	<p>Rhonda Baker</p>	<p>Ar waith a pharhaus</p>
<p>Nid yw'r trefniadau gwaredu gwastraff presennol yn cynnwys caniatâd i waredu meddyginiaethau a chyffuriau brys nad ydynt yn cael eu defnyddio neu</p>	<p>Rhaid i'r Rheolwr Cofrestredig roi manylion i AGIC o'r camau a gymerwyd i ddiweddarar'r contract gwaredu gwastraff i gynnwys caniatâd i waredu meddyginiaethau a</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 8 (1)(m)</p>	<p>Rydym wedi adolygu'r mater hwn, ac mae trefniadau ar waith gyda'r fferyllfa/lleoliad gwaredu gwastraff lleol a gwneir cofnod ohono a'i ffeilio gan aelod</p>	<p>Janet Porter. Rhonda Baker</p>	<p>Ar waith.</p>

y mae'r dyddiad arnynt wedi mynd heibio.	chyffurfiau brys nad ydynt yn cael eu defnyddio neu y mae'r dyddiad arnynt wedi mynd heibio.		penodedig o staff. Byddaf yn adolygu'r mater yn fisol.		
Dylai llwybr diogelu neu siart llif sy'n cynnwys manylion cyswllt priodol fod ar gael i bob aelod o'r staff.	Rhaid i'r Rheolwr Cofrestredig roi manylion i AGIC o'r camau a gymerwyd i sicrhau bod llwybr diogelu neu siart llif sy'n cynnwys manylion cyswllt priodol ar gael i'r staff.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 14	Mae pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r lle y cedwir y ffeil diogelu, ac mae siartiau llwybrau wedi'u hychwanegu at y ffeil hon. Mae pob aelod o'r staff wedi llofnodi'r siartiau a phob polisi arall i gydnabod hyn.	Rhonda Baker	Ar waith.
Nid yw'n bosib cofnodi'r holl brofion gofynnol yn y cofnodlyfr ar gyfer cynnal a chadw'r awtoclaf ac nid oedd tystysgrif arolygu'r awtoclaf yn gyfredol.	Rhaid i'r Rheolwr Cofrestredig roi manylion i AGIC o'r camau a gymerwyd i gael copi o dystysgrif bresennol ar gyfer arolygiad o'r awtoclaf a'r camau a gymerwyd i sicrhau y caiff pob canlyniad prawf yr awtoclaf ei gofnodi.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 8 (1)(d)	Rydym wedi gosod cofnodydd ar yr awtoclafau a gellir eu hargraffu. Mae cofnodlyfrau newydd hefyd ar gael. Mae'r tystysgrifau arolygu bellach yn gyfredol.	Rhonda Baker	Ar waith

<p>Gellir gwella'r cofnodion clinigol mewn perthynas â thriniaeth cleifion.</p>	<p>Rhaid i'r Rheolwr Cofrestredig roi manylion i AGIC o'r camau a gymerwyd i sicrhau bod y cofnodion, lle y bo'n berthnasol, yn cynnwys tystiolaeth o'r broses cynllunio triniaeth, asesiadau risg, dewis iaith a darpariaeth o iechyd y geg, ac y caiff gwybodaeth amherthnasol ei dileu os defnyddir templedau.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 20 (1)</p>	<p>Cyfarfodydd gyda Deintyddion</p> <p>Trafodwyd y wybodaeth hon yn ystod y cyfarfodydd, ac er bod y nodiadau yn dda, maent bob amser yn barod i wella eu nodiadau.</p>	<p>Bjorn Brunswick</p> <p>Tristan Ardley</p>	<p>Ar waith</p>
<p>Nid oedd modd cloi'r cypyrddau a oedd yn cael eu defnyddio i storio nodiadau clinigol a chofnodion cleifion.</p>	<p>Rhaid i'r Rheolwr Cofrestredig roi manylion i AGIC o'r camau a gymerwyd i sicrhau mai dim ond unigolion penodol a all gael gafael ar y cofnodion hyn.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 20)</p>	<p>Rydym wedi gosod cloeon ar ddrysau deintyddfeydd a drysau'r cypyrddau ac wedi symud polisiau a ffeiliau er mwyn gwella hygyrchedd ac i sicrhau trefn.</p>	<p>Rhonda Baker</p>	<p>Ar waith</p>
<p>Nid yw rhai o'r polisiau a'r gweithdrefnau gofynnol ar waith, ac nid oes system ar waith i ddangos bod aelodau o'r staff</p>	<p>Rhaid i'r Rheolwr Cofrestredig roi manylion i AGIC o'r camau a gymerwyd i sicrhau bod yr holl bolisiau a gweithdrefnau a restrir yn y</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 8)</p>	<p>Gall pob aelod o'r staff ddefnyddio [system cydymffurfiaeth electronig] lle yr anfonwyd yr holl</p>	<p>Rhonda Baker</p>	<p>Ar waith a pharhaus.</p>

wedi darllen a deall polisiau a gweithdrefnau allweddol.	rheoliadau ar waith, gan nodi'r system a ddefnyddir i gofnodi bod y staff wedi darllen y polisiau a'r gweithdrefnau perthnasol.		bolisiau yr wyf bellach wedi'u rhoi ar waith y mae'n rhaid iddynt eu llofnodi i ddangos eu bod wedi eu darllen/deall a'u bod wedi'u hychwanegu at eu ffeiliau cydymffurfiaeth.		
Caiff polisiau, gweithdrefnau a dogfennau mewn perthynas â chofnodion hyfforddiant y staff eu cadw mewn sawl lleoliad (yn electronig ac ar bapur), gan effeithio ar y broses o reoli dogfennau a monitro cydymffurfiaeth.	Rhaid i'r Rheolwr Cofrestredig roi manylion i AGIC o'r camau a gymerwyd i wella'r broses o reoli dogfennau a sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau'n cael ei hadolygu'n rheolaidd (o leiaf bob tair blynedd) a bod cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant yn cael ei fonitro.	Galluogwr - Data i Wybodaeth	Rwyf wedi gosod yr holl bolisiau, cofnodion hyfforddiant ac ati yn y ffeil gywir a gefais o [system cydymffurfiaeth electronig]. Maent wedi'u diweddarau a'u storio'n ddiogel a chânt eu hadolygu'n wythnosol.	Rhonda Baker	Ar waith a pharhaus.
Nid yw'r staff yn cael arfarniadau ffurfiol ar hyn o bryd.	Rhaid i'r Rheolwr Cofrestredig roi manylion i AGIC o'r camau a gymerwyd i sicrhau bod y staff yn cael	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat	Rwyf wedi dechrau'r daflen gwestiynau ac mae sesiynau arfarnu ffurfiol wedi'u trefnu ar	Rhonda Baker	Ar waith

	arfarniadau ffurfiol bob blwyddyn a gaiff eu cofnodi'n briodol.	(Cymru) 2017, Rheoliad 17)	gyfer pob aelod o'r staff ym mis Medi. Mae hyn wedi'i ychwanegu at galendr [system cydymffurfiaeth electronig] ar gyfer cynnal adolygiadau blynyddol.		
Er bod adborth gan gleifion yn cael ei annog, nid oes system glir ar waith i adolygu'r adborth hwn yn ffurfiol a chofnodi unrhyw gamau a gymerwyd o ganlyniad i'r adborth.	Rhaid i'r Rheolwr Cofrestredig roi systemau ar waith i gofnodi ac adolygu adborth gan gleifion yn rheolaidd, cofnodi unrhyw gamau a gymerwyd o ganlyniad i'r adborth, a rhannu'r camau hyn â chleifion os yn briodol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 16 (1)(a) a (2)(d)	Bellach, mae system ar waith lle rwyf yn cofnodi adborth a data o ran y cleifion na wnaeth fynychu eu hapwyntiadau. Byddwn yn trafod yr adborth yn ystod cyfarfodydd staff, yn cofnodi'r canlyniadau, p'un a ydynt yn gadarnhaol neu'n negyddol, ac yna yn eu harddangos er mwyn i'r cleifion eu gweld.	Rhonda Baker	Ar waith

<p>Mae gweithdrefn gwyno ar waith, ond byddai'r broses yn gwella pe byddai pob cwyn ffurfiol ac anffurfiol yn cael ei chofnodi mewn cofnodlyfr canolog yn ogystal â chofnodi'r camau a gymerwyd.</p>	<p>Rhaid i'r Rheolwr Cofrestredig roi systemau ar waith i gofnodi pob cwyn ffurfiol ac anffurfiol a chwynion a wneir ar lafar mewn un ddogfen, a chofnodi unrhyw gamau a gymerwyd o ganlyniad i'r cwynion hynny.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 21</p>	<p>Rwyf bellach wedi rhoi cofnodlyfr ar waith er budd ein system gwyno a byddwn yn trafod y mater yn ystod y cyfarfod staff nesaf.</p>	<p>Rhonda Baker</p>	<p>Medi 2023</p>
<p>Nifer fach o archwiliadau clinigol oedd yn cael eu cynnal ac nid oedd y canfyddiadau yn cael eu hadrodd.</p>	<p>Rhaid i'r Rheolwr Cofrestredig roi manylion i AGIC o'r camau a gymerwyd i gynyddu niferoedd yr archwiliadau clinigol, eu cofnodi a gweithredu ar unrhyw ganfyddiadau.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 16 (1) a Rheoliad 8 (1)(n)</p>	<p>Rwy'n defnyddio'r adnoddau Archwilio ar [system cydymffurfiaeth electronig] a bellach mae system ar waith sy'n amserlennu'r archwiliadau bob mis, gyda negeseuon atgoffa.</p> <p>Mae'r Deintydd/nysys yn cofnodi nodiadau clinigol/pelydrau-X/gwrthfotigau ar daflenni archwilio a byddaf yn eu</p>	<p>Rhonda Baker</p>	<p>Ar waith</p>

			harchwilio bob mis ac yn gweithredu ar unrhyw ganfyddiadau. Yna, bydd y taflenni hyn yn cael eu cadw yn y ffeil archwilio.		
Nid oedd copi cyfredol o'r contract ar gyfer y Cynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd penodedig ar gael.	Rhaid i'r Rheolwr Cofrestredig roi copi cyfredol o'r contract i AGIC er mwyn dangos yr ymgysylltir â Chynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd cymwysedig addas i roi cyngor ar waith sy'n ymwneud ag ymbelydredd ïoneiddio.	Rheoliadau Ymbelydredd ïoneiddio 2017, Rheoliad 14	Roeddem yn aros am gopi cyfredol o'r contract hwn yn ystod yr arolygiad ac mae'r copi cyfredol bellach ar waith.	Rhonda Baker	Ar waith

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): **RHONDA BAKER**

Teitl swydd: **RHEOLWR Y PRACTIS**

Dyddiad:

10/08/2023